# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 1 CHWEFROR 2019

**Yn bresennol**:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Gareth Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Pritchard (Cyngor Wrecsam), Aaron Shotton (Cyngor Sir y Fflint), Dyfrig L.Siencyn (Cyngor Gwynedd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndwr), Yr Athro Jo Rycroft-Malone (Prifysgol Bangor), Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy).

Prif Swyddogion - Marc Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Bancroft (Cyngor Wrecsam), Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol – Dafydd L.Edwards (Swyddog Adran 151), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd), Iwan Evans (Swyddog Monitro) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

## 1. ETHOL CADEIRYDD AM 2019/20

Etholwyd y Cynghorydd Aaron Shotton (Cyngor Sir y Fflint) yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor am 2019/20.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD AM 2019/20

Etholwyd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor am 2019/20.

## 3. YMDDIHEURIADAU

David Jones (Coleg Cambria).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATER BRYS – PROSES RECRIWTIO AR GYFER CYFARWYDDWR RHAGLEN

Cyflwynwyd cais gan Brif Weithredwr yr Awdurdod Lletya i'r Cyd-bwyllgor drafod cychwyn y broses recriwtio Cyfarwyddwr Rhaglen oherwydd risgiau cynyddol i'r Prosiect Twf oedi symud ymlaen.

Roedd y Cadeirydd yn fodlon i'r mater yma gael ei ystyried yn fater brys oherwydd ardrawiad a risgiau oediad mewn penodi Cyfarwyddwr Rhaglen ar y Cynllun Twf.

**PENDERFYNWYD**

1. Dirprwyo'r hawl i Brif Weithredwr yr Awdurdod Lletya, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor i;

   (a) baratoi swydd-ddisgrifiad a manylion person ar gyfer swydd y Cyfarwyddwr Rhaglen,

(a) cynnal proses arfarnu swyddi yn unol â threfniadau Cyngor Gwynedd ar y swydd er mwyn gosod y cyflog,

(c) symud ymlaen i hysbysebu'r swydd.

2. Bod adroddiad yn argymell y drefn benodi o hynny ymlaen yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Cyd-Bwyllgor.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

O ddilyn y drefn arferol, byddai manylion y broses recriwtio yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ym mis Mawrth ac felly'n ychwanegu at yr amserlen yn erbyn y rhaglen waith.

**TRAFODAETH**

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Swyddog Cyllid fod yna rai adnoddau yn y gyllideb eisoes ac nad oedd problem symud ymlaen gyda'r broses recriwtio yn y cyfamser.

**6. RHAGLEN WAITH GYCHWYNNOL Y BWRDD UCHELGAIS A THREFNIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd.

**PENDERFYNWYD**

(a) Cytuno ar y rhaglen waith lefel uchel ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd dros y 6-9 mis nesaf.

(b) Cytuno ar amserlen o gyfarfodydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd tan ddiwedd y flwyddyn galendr.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'n hanfodol bod gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd, fel y'i ffurfir o'r newydd, raglen waith glir i arwain gweithgareddau allweddol dros y 6-9 mis nesaf. Bydd hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gomisiynu'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol gyda chynllun gwaith pwrpasol er mwyn cydlynu'r gwaith o gyflawni'r Weledigaeth Twf. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfeiriad cytûn ar gyfer gweithgareddau'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol, gyda cherrig milltir ac amserlenni clir, a fydd yn help wrth reoli disgwyliadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.00 y.h. a daeth i ben am 3.20 y.h.

**CADEIRYDD**